**<u>Cofnodion y pedwerydd cyfarfod a deugain o'r Grŵp Trawsbleidiol ar Ddyfrffyrdd</u>**

Lleoliad: Ystafell Addysg, Cynulliad Cymru, Caerdydd, CF99 1NA
dydd Mercher 8Mawrth 2017
18.00

**Aelodau Cynulliad yn bresennol:**

Nick Ramsay AC (Ceidwadwyr Cymreig, Mynwy)
Mike Hedges AC (Llafur Cymru, Dwyrain Abertawe)
Mark Isherwood AM (Ceidwadwyr Cymreig, Gogledd Cymru)

**Yn bresennol:**

Andrew Stumpf – Glandŵr Cymru
Laura Lewis – Glandŵr Cymru
Emily Lewis - Glandŵr Cymru
Stephen Marsh Smith - Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru
Phillip Thomas - Glandŵr Cymru
Gareth Jones - CBS Torfaen
Mark Lang
Joe Bickerton - CBS Wrecsam
Mike Feeney - Gwirfoddolwr, Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd
Bernard Illman - Ymddiriedolaeth Camlesi Sir Fynwy, Aberhonddu a'r Fenni
Julian Atkins - Partneriaeth Dyfrffyrdd De Cymru a Hafren
Malcolm Harrison – Pub is the Hub
John Roger - ENIM
Rachel Evans – y Gynghrair Cefn Gwlad
Carys Howell - Bwrdd Glandŵr Cymru
Roger Holmes - Cymdeithas Dyfrffyrdd Mewndirol
Gail Devine - Groundwork Cymru
Wyn Mitchell - Ymddiriedolaeth Camlesi Sir Fynwy, Aberhonddu a'r Fenni
Roger Francis
Nigel Annett - Cadeirydd Bwrdd Glandŵr Cymru
Steve Moran - Cyfoeth Naturiol Cymru
Stan Evans - Cyfoeth Naturiol Cymru
Richard Dommett

*****

Dechreuodd y cyfarfod am 18.15

Dechreuodd Nick Ramsay AC drwy groesawu pawb i'r grŵp a chyflwyno ein siaradwyr.

**Eitem 1: Cyflwyniad:** Sut mae Safle Treftadaeth y Byd Camlas Llangollen a Phontcysyllte yn cyd-fynd â Chynllun Rheoli Cyrchfannau (CRhC) Cyngor Sir Wrecsam - Joe Bickerton, Rheolwr Cyrchfannau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Rhoes Joe Bickerton, cyngor Wrecsam, gyflwyniad yn amlinellu gwaith cyngor Wrecsam i gynnwys safle treftadaeth y byd (STB) yn eu cynllun rheoli cyrchfannau.

Yn y cyflwyniad, cafwyd trosolwg o sut mae'r ddyfrbont yn cyd-fynd â'r cynllun rheoli twristiaeth, a rhoddwyd sylw i'r newidiadau a welwyd ers dod yn safle treftadaeth y byd. Dangoswyd fideo hyrwyddo i'r gynulleidfa. Dangoswyd y fideo yn America am y tro cyntaf ym mis Hydref 2016 er mwyn denu twristiaid i Bontcysyllte. Trafododd Joe yr effaith y mae'r

bathodyn UNESCO wedi ei chael ar nifer yr ymwelwyr (246,000 yn 2016), gyda chynnydd sylweddol yn nifer y pleserdeithiau dŵr i'r safle.

Yna tynnodd y cyflwyniad sylw at faint o waith partneriaeth sy'n ymwneud â gwireddu potensial llawn y ddyfrffordd, gyda sylw arbennig i reoli'r heriau sydd wedi codi o ganlyniad i boblogrwydd cynyddol y safle. Mae'r heriau yn cynnwys cadw safon uchel y cyfleusterau ar gyfer ymwelwyr, sicrhau bod pob adran yn y cyngor yn meddwl am dwristiaeth yn yr un ffordd, sut i rannu ymwelwyr ar hyd yr 11 filltir y tu allan i fasn Trefor.

Un broblem i'r gymuned yw'r gorddefnydd o faes parcio'r basn, gan fod parcio a thagfeydd yn gwneud y strydoedd cyfagos yn brysur. Caniatawyd i'r gymuned ddefnyddio cae ger y maes parcio i godi incwm, gyda gwirfoddolwyr yn staffio'r maes parcio. Rhoddir hyfforddiant i bob gwasanaeth cwsmeriaid, a llenyddiaeth, fel eu bod yn adnabod pob un o'r 11 o filltiroedd. Mae'r balchder maent yn ei deimlo wrth groesawu pobl i'w cymuned yn wir yn talu'r ffordd o ran profiadau'r ymwelwyr

Yn y cyflwyniad, eglurwyd bod pobl am weld rhan enwog y safle (dyfrbont Pontcysyllte) ac mae hynny'n rhoi'r ardal o dan bwysau. Neges cyngor Wrecsam yw y dylid gweld y ddyfrbont, ond dylid hefyd weld gweddill yr STB, ar droed, mewn bad ac ar gefn beic. Mae enghreifftiau o beirianneg wych ar hyn y gamlas ac mae'n awyddus i sicrhau bod busnesau ar hyd y llwybr yn elwa.

Yna trafododd Joe effaith y cyfryngau lleol, sydd wedi bod yn rhagorol wrth gofleidio'r statws STB. Wrth siarad yn y cyfryngau, mae Wrecsam a'i phartneriaid yn gadarnhaol iawn am y safle. Mae gan y gymuned leol ymdeimlad o berchnogaeth o ran y gamlas, ac maent yn dechrau gweld y pwysau cynyddol. Mae eu CRhC yn ceisio lleddfu'r materion hyn a sicrhau bod y gymuned yn llysgenhadon ar gyfer y gamlas. Mae Wrecsam yn gweithio i dynnu sylw at fanteision cymunedol y safle.

Roedd angen i'r wefan allu gweithio gyda ffonau symudol, a rhaid iddi fod yn ddeniadol a dangos sut i'w harchwilio. Gwnaethant gomisiynu safle newydd sbon - mae'r mapiau 3D yn ffordd wych o ddangos i bobl sut i archwilio pob rhan o'r gamlas. Mae hwn yn gynnyrch newydd. Mae cyplysu'r wefan â'r map yn ffordd wych o gael pobl i weld yr 11 filltir yn eu cyfanrwydd.

Marchnata a hyrwyddo - gogledd-ddwyrain Cymru yw'r brand maent yn ei ddefnyddio. Maent yn gweithio'n agos iawn gyda sir y Fflint a sir Ddinbych. Mae gan bob gorsaf ger y safle fyrddau ac arnynt frand STB, ac mae Wrecsam wedi gweithio gyda chwmnïau bysiau i gael cysylltiadau da. Maent hefyd wedi gweithio gyda gyrwyr tacsis i ddeall y safle a darparu ar gyfer y farchnad.

Hefyd, ymdriniodd y cyflwyniad â phwysigrwydd yr STB i fusnesau lleol a'r angen i Wrecsam godi ymwybyddiaeth er mwyn i fusnesau ddarparu ar gyfer twristiaid rhyngwladol. Mae rhwydwaith o lysgenhadon twristiaeth yn Wrecsam yn helpu'r busnesau hyn ddeall beth sydd ganddynt ar garreg eu drws. Os bydd rhywun yn recriwtio aelod newydd o staff blaen y tŷ, bydd cyngor Wrecsam yn eu cyflwyno i'r safle. Mae gwneud hyn wedi gwella profiad yr ymwelwyr ac mae'n gweithio'n dda iawn gyda chefnogaeth gan Groeso Cymru. Os bydd busnesau'n ymuno â'r cynllun am ddim, cynhelir sesiwn tynnu lluniau, a darperir llenyddiaeth am y safle a hyfforddiant dyddiol ac wythnosol. Dangosir y safle iddynt a siaredir â hwy am ddigwyddiadau lleol a phethau eraill yn y sir.

Prif ystadegau'r cyflwyniad:

Gwariant ymwelwyr:

- Gwerth presennol yr economi ymwelwyr yw £111.9 miliwn
- 1.7 miliwn o ymwelwyr i'r fwrdeistref sirol
- cefnogir 1,640 o swyddi.

Mae'r cyflwyniad ar gael; cysylltwch ag Emily.lewis@canalrivertrust.org.uk

**Eitem 2: Cyflwyniad:** Pasbort Pysgota Cymru Gyfan a'r Gororau - Dr Stephen Marsh-Smith OBE, Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru

Problem dechnegol, nid oedd PowerPoint yn gweithio, felly bydd Dr Marsh-Smith yn dychwelyd rhywbryd eto i roi cyflwyniad llawn.

Siaradodd Dr Marsh-Smith, Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru, am y problemau y mae sefydliadau yn eu hwynebu wrth adfer afonydd, yn enwedig ysgolion pysgod, glaw asid a llygredd. Rhoddwyd y cefndir i'r gwaith adfer ar afon Gwy, ar gae hamdden Desborough i'r gorllewin i Wycombe. Mae'r Gwy yn llifo drwy barcdir y cyngor, sydd yng nghanol datblygiadau domestig a masnachol a dwy heol brysur. Mae llawer o bobl yn cerdded eu cŵn yno, ac mae'r gymuned leol a'r ysgol yn defnyddio'r safle yn rheolaidd.

Yn y cyflwyniad trafodwyd hanes y Gwy, a nodwyd bod sut gynifer am bysgota yn afon Gwy mai 'disgwyl i rywun farw i gael ei le' oedd hi yng nghanol yr 20fed ganrif. Roedd y pysgotfannau yn hynod o werthfawr a byddai pysgotwyr yn talu'n hael i gael pysgota'r rhai da. Roedd y pwysau i ddal pysgod hefyd yn fawr - defnyddid pob dull a byddai pysgotfan yn caniatáu i fwy o enweiriau na heddiw. Yn ogystal, cyflogid gweision i sicrhau bod nifer fawr o bysgod yn cael eu dal.

Ychwanegodd Dr Marsh-Smith mai cwymp sydyn a dramatig a welwyd yn gynnar yn y 1990au yn nifer yr eogiaid a esgynnai'r afon a hynny ym mhob pysgotfan heblaw'r rhai isaf. O'r sydyn, dyma lawer o leoedd pysgota yn dod ar gael, ond nid oedd modd hysbysu pysgotwyr. Yn 2003, cysylltasant â phob gwesty pysgota yn ardal afon Gwy uchaf a chael mai dim ond un (a oedd yn eiddo i bysgotwr brwd) a oedd yn gallu cynnig llety i bysgotwyr o ymwelwyr. Roedd yr economi a oedd yn gysylltiedig â physgota bron wedi diflannu, ynghyd â'r rhan fwyaf o'r swyddi cysylltiedig. Er mwyn bodloni gofynion cyllid yr UE, roedd yn hanfodol dangos bod ein gwaith a'r gwelliannau i'r pysgodfeydd yn sgil hynny o fudd i'r economi wledig, naill ai ar ffurf cyflogaeth uniongyrchol neu ar ffurf cynnydd refeniw. Roedd angen cynllun a fyddai'n gwneud hynny ac yn eu galluogi i feintoli'r buddion hyn yr un pryd. Lansiad Cynllun Gwella Cynefinoedd Powys, a rhywfaint o gyllid ar ôl Clwy'r Traed a'r Genau (Adfywio) i gael ymwelwyr yn ôl i Bowys, oedd wedi sbarduno'r gwaith o greu 'Pasbort Gwy Uchaf' yn 2003.

Sut mae'n gweithio

Mae dwy elfen benodol i'r Pasbort:

Mae "Ffrydiau Gwyllt" yn canolbwyntio ar y pysgodfeydd brithyll gwyllt a grëwyd gan ein gwaith adfer cynefinoedd, a chrëwyd y "Swyddfa Archebu" (dros y ffôn ac ar-lein) ar gyfer

trefnu diwrnod, wythnos a thymor ar gyfer pysgota eogiaid, brithyllod, penllwydion a physgota bras yn y pysgodfeydd mwy a sefydlog.

Daw Dr Marsh-Smith yn ôl i draddodi'r cyflwyniad llawn.

**Eitem 3: Adborth a Thrafodaeth**

Gofynnwyd i'r rhai presennol i roi adborth ar y cyflwyniadau a rhannu eu syniadau am yr hyn y gall y rhwydwaith camlesi ei gynnig i Dwristiaeth yng Nghymru.

Gofynnodd Nigel Annett - Cadeirydd Bwrdd Glandŵr Cymru i'r siaradwr, Dr Marsh-Smith "beth yw'r broblem fwyaf?"

Dywedodd Dr Marsh-Smith eu bod wedi blocio'r rhwydi masnachol, ac adeiladwyd 70 o lwybrau pysgod, ac maent yn dal i weithio ar hyn. Gweddill pethau fel hyrddod dŵr, codi dŵr a rhwystro mynediad, oedd atal pysgod. Roedd glaw asid hefyd yn broblem. Mae 62km o'r Gwy a'i llednentydd yn farw, dim pysgod, dim infertebratau. pH isel. yn gostwng. Yn y blynyddoedd cynnar, roeddem hefyd yn gweld diwedd clwy'r traed a'r genau.

Ai dal a rhyddhau ydyw? Ie - nid hynny a ddaeth â'r pysgod yn ôl; dim ond yn ddiweddar y mae hyn yn digwydd.

Gofynnodd Gareth Jones- cyngor Torfaen i'r siaradwr, Dr Marsh-Smith a oes cyfle i greu cysylltiad â gofynion trwydded Cyfoeth Naturiol Cymru?

Atebodd Dr Marsh-Smith eu bod yn arfer bod yn ddosbarthydd trwyddedau - y Saeson sy'n casglu'r arian i gyd, mae gennym fewnlifiad net o ymwelwyr o bysgotwyr, ond nid yw'n rhannu o'n plaid gan nad yw llawer o Gymry yn mynd i Loegr.

Gofynnodd Mark Isherwood AC i Joe Bickerton, siaradwr - Diolch am y cyflwyniad, mae'n wych gweld yr hyn sydd gan ogledd-ddwyrain Cymru i'w gynnig, a mwy o gyfleoedd yn y maes wrth iddo ddatblygu. Rydych yn sôn am ddefnyddio'r ganolfan ymwelwyr i ddenu'r ymwelwyr sydd yno. Mae rheilffordd Llangollen yn awyddus i ddatblygu'r model gwyliau gartref. Ble ydych chi arni yn hyn o beth?

Atebodd Joe Bickerton ein bod wedi meddwl am hyn ers talm; gellir defnyddio'r wefan i drefnu ymweliadau â'r atyniadau a chadw ystafell gwesty ar yr un pryd. Mae'n dioddef oherwydd yr amgylchiadau; hon yw'r flwyddyn ariannol gyntaf heb gymorth Croeso Cymru i ariannu'r cynllun llysgenhadon. Erbyn hyn mae'r busnesau yn cyfrannu. Dechreuodd fel cynllun STB; erbyn hyn cynllun llysgenhadon twristiaeth gogledd-ddwyrain Cymru ydyw. Mae'n bwysig ymgorffori asedau eraill. Y cam nesaf fyddai ystyried pwy fyddai am ymuno yn hyn o beth.

Gofynnodd Carys Howell - Aelod o Fwrdd Glandŵr Cymru i Joe Bickerton a ydynt wedi ystyried bws gwennol neu daith dwristiaeth benodedig sy'n galw heibio i bob safle, gan annog arosiadau hwy mewn lleoedd fel Cefn Mawr, a fyddai wrth eu bodd i groesawu mwy o dwristiaid?

Ymatebodd Joe Bickerton fod llwybr tua 5 mlynedd yn ôl rhwng y Waun a Phontcysyllte. Parodd am chwe mis; rydym yn credu y dylid ei ystyried eto. Nid oes dim yn yr arfaeth ar hyn o bryd, ond mae cyfle. Gan ein bod bellach yn gweld cynnydd blynyddol yn nifer yr

ymwelwyr, mae angen edrych ar y ffordd yr ydym yn defnyddio pethau fel y cynllun pasbort a sut y gallwn leddfu'r pwysau ar y basn.

Gofynnodd Dr Mark Lang i'r siaradwr, Joe Bickerton i ba raddau y gallai'r twf hwn barhau o ddifrif? Beth ydych chi fel awdurdod yn ei wneud i sicrhau bod y twf o fudd i drawstoriad ehangach o'r gymuned?

Ymatebodd Joe fod llawer o safleoedd tir llwyd. Mae potensial o dan yr uwchgynllun i ystyried y safleoedd hyn er mwyn gweld sut y gellid eu defnyddio er budd y gymuned. Mae llawer o ardaloedd economaidd-gymdeithasol isel ger y gamlas. I'r rheini ohonom ym maes datblygu economaidd, mae'n hanfodol bod yr uwchgynllun hwn yn llwyddo a'i fod yn sicrhau ffyniant i'r cymunedau hyn. Mae tirfeddianwyr wrth y bwrdd am y tro cyntaf.

**Eitem 4: Y wybodaeth ddiweddaraf gan Andrew Stumpf**

Dyddiadau pwysig:

Diwrnod agored gwaith gaeaf Llangatwg 19 Mawrth

Gogledd Cymru a'r Gororau, Gweithdy i Ddatgloi Potensial Dyfrffyrdd o ran Iechyd, Llangollen 24 Mawrth

Ymweliad y Gweinidog Sgiliau 27 Mawrth

Grŵp Trawsbleidiol 17 Mai

Mordwyo - Ymchwil fel Celf, Oriel Davis, y Drenewydd 20 Mai - 19 Gorffennaf 2017

Gŵyl Camlas a Bwyd y Trallwng, Gorffennaf 22, 2017

Gohiriwyd lansiad Llwybr Odynau Calch Aberhonddu, a'r seremoni i ddadorchuddio un o'r paneli dehongli o flaen Odynnau Calch Watton, tan yn ddiweddarach yn y gwanwyn - dyddiad i'w gadarnhau / mis Mai fwy na thebyg

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Y Grŵp Trawsbleidiol - 17 Mai 2017

**Eitem 5:  Unrhyw fater arall**

Dim.